| | Dirprwy Arweinydd/Aelod Gweithredol – Adfywio a Datblygu Economaidd<br>Aelod Gweithredol - Amgylchedd<br>**<u>Cymdeithas Cominwyr Stad Sir Frycheiniog Dug Beaufort</u>**<br>Cynghorydd B. Thomas<br><br>**<u>EAS – Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer De Ddwyrain Cymru</u>**<br>Aelod Gweithredol - Amgylchedd<br>**Dirprwy:** Aelod Gweithredol – Adfywio a Datblygu Economaidd<br><br>**<u>EAS – Cyd-grŵp Gweithredwyr</u>**<br>Aelod Gweithredol - Addysg<br><br>**<u>EAS – Pwyllgor Sicrwydd Archwilio a Risg</u>**<br>Cynghorydd S. Healy<br>Cynghorydd M. Cook<br><br>**<u>G.A.V.O. – Pwyllgor Gweithredol a Phwyllgor Lleol</u>**<br>Aelod Gweithredol – Gwasanaethau Cymdeithasol – Cynghorydd J. Mason<br><br><u>G.A.V.O. – Gwobrau Ymfalchïo yn eich Cymuned Gwent (gynt – Pwyllgor Pentref Taclusaf Gwent)</u><br>**Cynghorydd L. Parsons**<br><br>**<u>Cydbwyllgor Amlosgfa Gwent Fwyaf</u>**<br><br>Cadeirydd Craffu – Gwasanaethau Cymunedol<br>Cynghorydd M. Moore<br><br>*Dirprwy:* Is-gadeirydd Craffu – Gwasanaethau Cymunedol<br>Cynghorydd C. Meredith<br><br>**<u>Cydbwyllgor Archifau Gwent</u>**<br>Aelod Gweithredol – Adfywio a Datblygu Economaidd<br>Cynghorydd J. Millard<br><br>**<u>Panel Troseddu Heddlu Gwent (gynt Awdurdod Heddlu Gwent)</u>**<br>Cynghorydd C. Meredith<br>Cynghorydd L. Winnett<br><br>**<u>Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Aelod Gweithredol – Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>**Bwrdd Rhaglen Blaenau'r Cymoedd**<br>Aelod Gweithredol – Adfywio a Datblygu Economaidd<br><br>**Cydgyngor Cymru Ochr Cyflogwyr**<br>Aelod Gweithredol – Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Ymddiriedolaeth Gwaddol Fferm Ysgol Trefynwy**<br>Cynghorydd B. Thomas<br><br>**Bwrdd Llywodraethiant Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**<br>Aelod Gweithredol – Gwsanaethau Cymdeithasol<br><br>**Cyd-bwyllgor Dyfarnu PATROL**<br>**Cadeirydd Craffu – Gwasanaethau Cymunedol**<br>**Cynghorydd M. Moore**<br>**Dirprwy:- Is-gadeirydd Craffu – Gwasanaethau Cymunedol**<br>Cynghorydd C. Meredith<br><br>**Cymdeithas Lluoedd wrth Gefn a Chadetiaid Cymru – Cynrychiolaeth Llywodraeth Leol**<br>Cynghorydd B. Thomas<br><br>**Silent Valley Waste Services Cyf**<br><br>Anweithredol<br>Cynghorwyr M. Cook a B. Summers<br><br>Cynrychiolwyr Cyfranddalwyr<br>Arweinydd y Cyngor<br>Aelod Gweithredol - Amgylchedd<br><br>**Awdurdod Tân De Cymru**<br>Cynghorydd W. Hodgins<br><br>**Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru**<br>Aelod Gweithredol – Amgylchedd<br><br>**Bwrdd Tai Calon**<br>Cynghorydd M. Day<br>Cynghorydd G. A. Davies | |

| | | |
|---|---|---|
| | **<u>Vision in Wales (gynt Cyngor Cymru i'r Deillion)</u>**<br>Aelod Gweithredol – Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cadeirydd Craffu – Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>**<u>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)</u>**<br>Arweinydd y Cyngor<br><br>**<u>Bwrdd Gweithredol WLGA</u>**<br>Arweinydd y Cyngor<br><br>**<u>Cyngor WLGA a Phleidleisio</u>**<br>Arweinydd y Cyngor<br>*Dirprwy*:- Dirprwy Arweinydd y Cyngor<br><br>**<u>WLGA – Grŵp Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gyfan</u>**<br>Aelod Gweithredol – Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>**<u>WLGA – Hyrwyddwr yr Amgylchedd</u>**<br>Aelod Gweithredol - Amgylchedd<br><br>**<u>WLGA – Penodi Swyddog – Gweithgor Cyllid</u>**<br>Prif Swyddog Adnoddau – Rhian Hayden<br><br>**<u>WLGA Materion Corfforaethol – Partneriaeth Cyhoeddus Preifat Cyf – Bwrdd Rheoli</u>**<br>Aelod Gweithredol – Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**<u>WLGA – Materion Diwylliannol a Hamdden – Pwyllgor Rhanbarthol De Cymru</u>**<br>Aelod Gweithredol - Amgylchedd<br><br>**<u>Cyngor Cymru i Bobl Fyddar</u>**<br>Aelod Gweithredol – Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>**<u>Cydbwyllgor Addysg Cymru</u>**<br>Aelod Gweithredol - Addysg<br><br>**<u>Bwrdd Rheoli Lleol Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid – Blaenau Gwent a Chaerffili</u>**<br><br>Aelod Gweithredol – Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>**<u>CYNRYCHIOLWYR YR AWDURDOD ADDYSG LLEOL AR</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **<u>GYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION</u>**<br><br>**<u>Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri</u>**<br>Mr. R. Bevan<br>Cynghorydd J. Holt<br>Cynghorydd N. Daniels<br>Cynghorydd M. Cook<br>**Lle gwag**<br><br>**<u>Ysgol Gynradd Gatholig Holl Seintiau</u>**<br>Mr. N. Price<br>Mrs. P. Mitchell<br><br>**<u>Ysgol Gynradd Rhiw Beaufort</u>**<br>**Lle gwag**<br>**Lle gwag**<br>Mr. R. Lynch<br><br>**<u>Ysgol Gynradd Blaen-y-Cwm</u>**<br>Cynghorydd Lyn Elias<br>Ms. Megan Morgan<br>Ms Natasha Tepielow<br>**Lle gwag**<br><br>**<u>Ysgol Gynradd Bryn Bach</u>**<br>Mr. Gemma Badham<br>Cynghorydd Malcolm Cross<br>Mrs Diane Rowberry<br><br>**<u>Ysgol Sylfaen Brynmawr</u>**<br>Ms Stephanie Hopkins<br>Cynghorydd John Hill<br><br>**<u>Canolfan yr Afon</u>**<br>**Lle gwag**<br>Ms. Lisa Adams<br>Mr. Stephen J. O'Reilly<br><br>**<u>Ysgol Gynradd Coed-y-Garn</u>**<br>Cynghorydd Keri Rowson<br>Mr. Kenneth Jones<br>**Lle gwag**<br>**<u>Ysgol Gynradd Cwm</u>**<br>Cynghorydd Derrick Bevan | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mrs Kathryn Cross<br>Ms. Natalie Marshall<br><br>**Ysgol Gynradd Deighton, Tredegar**<br>Cynghorydd Haydn Trollope<br>Cynghorydd Bernard Willis<br>Mr. Phillip Griffiths<br>Mrs Amanda Hulbert<br><br>**Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr**<br>*Cynghorydd Derrick Bevan*<br>Cynghorydd Jonathan Millard<br>Mrs Gina Taylor<br>Cynghorydd Clive Meredith<br>Cynghorydd Dai Davies<br><br>**Ysgol Gynradd Georgetown, Tredegar**<br>Cynghorydd Mandy Moore<br>Cynghorydd John C. Morgan<br>Ms Donna Hardman<br><br>**Ysgol Gynradd Glanhywi,Tredegar**<br>Miss Joanne Davies<br>Cynghorydd Tommy Smith<br>Ms. Tara Lane<br><br>**Ysgol Arbennig Penycwm**<br>Ms. Dawn Wilcox<br>Mrs Jennifer Morgan<br>Mrs Nicola Probert<br><br>**Ysgol Gynradd Rhos-y-Fedwen**<br>Cynghorydd D. Wilkshire<br>Cynghorydd G. A. Davies<br>Cynghorydd P. Edwards<br><br>**Ysgol Gynradd Sofrydd**<br>Mrs Gill Clark<br>Pat Smail<br>Deborah Field<br><br>**Ysgol Gynradd Sant Illtyd**<br>Mrs Keri Jones<br>**Lle gwag** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynghorydd Joanne Collins<br><br>**<u>Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff</u>**<br>Cynghorydd Malcolm Cross<br><br>**<u>Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Santes Fair Brynmawr</u>**<br>**Lle gwag**<br><br>**<u>Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair Frynmawr Brynmawr</u>**<br>**Lle gwag**<br>Mrs Angela Davies<br><br>**<u>Ysgol Gyfun Tredegar</u>**<br>Cynghorydd John C. Morgan<br>Cynghorydd Haydn Trollope<br>Mr Adrian Tuck<br>Ms. Melanie Rogers<br>Mr. Andrew Pearsall<br><br>**<u>Ysgol Gynradd Trehelyg</u>**<br>**Lle gwag**<br>Cynghorydd David C. Davies<br>Mrs Sian Barrett<br><br>**<u>Ysgol Gymraeg Bro Helyg, Blaenau</u>**<br>Cynghorydd John Hill<br>Cynghorydd Peter Baldwin<br>Mrs Tracey Dyson<br><br>**<u>Ysgol Gynradd Ystruth</u>**<br>Cynghorydd Mrs. Lisa Winnett<br>Cynghorydd Garth Collier<br>**Lle gwag** | |
| **No. 13** | **<u>TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT ARGYFWNG YN YSTOD ARGYFWNG COVID 19</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol (Swyddog Monitro).<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol. Ei ddiben yw sefydlu trefniadau llywodraethiant argyfwng dros dro fel y gellir parhau i gymryd penderfyniadau i ohirio a lliniaru lledaeniad ac | |

effaith Coronafeirws o fewn y gymuned tra'n gwarchod y gweithlu a phreswylwyr, yn arbennig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Gan fod y feirws yn lledaenu'n gyflym, y mesurau a gymerwyd gan y Cyngor hyd yma fel rhan o'i ymateb argyfwng ymysg pethau eraill oedd symud at ddarparu gwasanaethau hanfodol yn unig.

Yn nhermau'r broses benderfynu, mae angen ymateb yn gyflym i'r newidiadau hyn. Mae cynllun dirprwyo lleol Blaenau Gwent, a roddir yn Adran 13 y Cyfansoddiad, eisoes yn dirprwyo ystod eang o faterion gweithredol i swyddogion. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau polisi a phenderfyniadau mawr sydd ag effaith ehangach wedi eu cadw i'r Pwyllgor Gweithredol eu penderfynu ond gan fod cyfarfodydd y Cyngor wedi eu canslo am y dyfodol rhagweladwy, mae angen rhoi camau argyfwng dros dro ar waith er mwyn ymateb yn effeithlon i effaith bosibl COVID 19 ac i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol a gwarchod cymunedau lleol a staff.

Felly, cynigiwyd y dylai'r Rheolwr Gyfarwyddwr neu ddirprwy a enwebir ganddi (sef unrhyw swyddog sy'n rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol) gael pŵer dirprwyedig dros dro i wneud penderfyniadau gweithredol ar ran y Cyngor. Yn ychwanegol, cynigiwyd sefydlu Pwyllgor Argyfwng dros dro er mwyn ystyried materion sylweddol a all godi ac a all ddod tu allan i bolisi neu fframwaith cyllideb a gytunwyd gan y Cyngor ar hyn o bryd. Byddai 5 Aelod ar y Pwyllgor hwn a phe byddai Aelod o'r Pwyllgor heb fod ar gael, medrir enwebu dirprwy. Caiff cylch gorchwyl y Pwyllgor ei fanylu ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.

Nodwyd bod y pŵer statudol i ganiatáu dirprwyad o'r fath wedi ei gynnwys o fewn adran 15(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000, y mae ei darpariaethau yn galluogi'r Cyngor i drefnu i swyddogaethau'r Pwyllgor Gweithredol gael eu cyflawni gan Bwyllgor neu swyddogion yr Awdurdod.

Daeth y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol i ben drwy argymell cymeradwyo Opsiwn 1.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod yn hollol hanfodol cefnogi'r adroddiad a'r argymhellion er mwyn sefydlu Pwyllgor Argyfwng. Byddid yn anfon enwau cynrychiolwyr i Gwasanaethau Democrataidd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn dilyn y cyfarfod. Byddai hyblygrwydd ar gyfer dirprwyon yn sicrhau y presenoldeb mwyaf.

| | | |
|---|---|---|
| | Daeth i ben drwy ddweud y byddai'n cynnig cymeradwyo Opsiwn 1 ar y pwynt priodol.<br><br>Cefnogodd Arweinydd y Grŵp Llafur sylwadau'r Arweinydd a dywedodd y byddai hefyd yn cyflwyno enw cynrychiolydd yn dilyn y cyfarfod.<br><br>Felly, cynigiwyd a chefnogwyd yn unfrydol gymeradwyo Opsiwn 1.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>- Yng nghyswllt gweithredu Swyddogaethau Gweithredol fel yr amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, mae'r Cyngor dros dro wedi dirprwyo grym a chyfrifoldeb am weithredu swyddogaethau gweithredol (na chafodd eisoes eu dirprwyo yn sgil trefniadau presennol o fewn Cyfansoddiad y Cyngor) i'r Rheolwr Gyfarwyddwr (ac yn ei habsenoldeb neu anallu) i unrhyw un o'r dirprwyon a enwebir ganddi sef unrhyw swyddog o'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol) i wneud penderfyniadau ac ymgymryd ag unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn parhau i weithredu yn seiliedig ar gynlluniau parhad busnes, er mwyn gwarchod y Cyngor a'i breswylwyr.<br><br>- Er mwyn sicrhau fod ymgyfraniad priodol i Aelodau Etholedig, sefydlir (heb adroddiad pellach) Bwyllgor Argyfwng o Aelodau Etholedig yn cynnwys Arweinydd y Cyngor, Arweinydd y Grŵp Llafur, dau Aelod Etholedig Annibynnol ac un Aelod Etholedig Llafur, yr ymgynghorir â nhw ar benderfyniadau a all ddod tu allan i gyllideb neu fframwaith polisi bresennol y Cyngor. Mae'n rhaid gwneud unrhyw benderfyniadau brys sydd eu hangen sydd tu allan i fframwaith polisi a chyllideb cyfredol y Cyngor, yn unol â darpariaethau presennol paragraff 15.5 Cyfansoddiad y Cyngor, gyda'r amod ychwanegol fod yn rhaid ymgynghori â'r Pwyllgor Argyfwng cyn gwneud unrhyw benderfyniad o'r fath.<br><br>- Yn ychwanegol, dylai'r Rheolwr Gyfarwyddwr (neu ddirprwy a enwebir ganddi) wneud pob ymdrech resymol i gysylltu â'r Arweinydd a/neu Aelodau eraill o'r Pwyllgor Argyfwng i'w hysbysu am yr amgylchiadau a'u penderfyniadau cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Os digwyddai nad yw Aelod o'r Pwyllgor Argyfwng ar gael, gallant enwebu dirprwy. Gall y Pwyllgor Argyfwng gynnal ei fusnes drwy e-bost, dros y ffôn neu'n defnyddio unrhyw ddulliau digidol sydd ar gael iddynt. Ni fwriadwyd cael isafswm 'cworwm' ar gyfer y Pwyllgor hwn. Gall manylion y trefniadau cyfathrebu gael eu cytuno rhwng y Rheolwr Gyfarwyddwr ac Arweinydd y Cyngor neu ddirprwyon a enwebir ganddynt. Byddai'r trefniadau yn parhau tan hysbysiad pellach.<br><br>- Yn nhermau pwerau cyfredol a ddirprwywyd h.y. y rhai a ddirprwywyd i'r Cyfansoddiad i Gyfarwyddwyr/Uwch Swyddogion a enwyd, er mwyn osgoi amheuaeth, dylai'r Rheolwr Gyfarwyddwr fod â hawl i weithredu unrhyw swyddogaethau a gaiff fel arall eu dirprwyo i Brif Swyddog pe byddai'r swyddog dan sylw yn absennol neu'n analluog i weithredu pwerau dirprwyedig penodol, neu mewn argyfwng.<br><br>- Dylai'r holl benderfyniadau a gymerwyd fel canlyniad i'r dirprwyad dros dro hwn gael eu cofnodi ar "Hysbysiad Penderfyniad" ac (os na ddyfarnwyd yn "Wybodaeth Eithriedig" gan Swyddog Monitro y Cyngor), eu harddangos ar gyfer dibenion mynediad i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. | |
| **No. 14** | **<u>COFRESTR FFIOEDD A CHOSTAU CORFFORAETHOL 2020/2021</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Masnachol.<br><br>Cynigiodd Arweinydd y Cyngor y dylid cymeradwyo Opsiwn 1. Fe wnaeth Arweinydd y Grŵp Llafur hefyd gadarnhau ei gefnogaeth i'r adroddiad.<br><br>Ar hynny,<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef:<br><br>Cymeradwyo y ffioedd a chostau ar gyfer Gwastraff Masnach a Marchnadoedd, y detholiad o'r Gofrestr Ffioedd a Chostau 2020/21. Cafodd y manylion eu crynhoi islaw: | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Gwastraff Masnach – Gostwng y ffi blynyddol ar gyfer yr Hysbysiad Dyletswydd Gofal o £49.50 i £25.00.<br><br>• Marchnadoedd – Cynnydd ffi o 2% a fyddai'n cynyddu ffi y llain rhwng £0.40 a £2.00 yn dibynnu ar faint y llain. | |
| **No. 15** | **<u>EITEM EITHRIEDIG</u>**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiad dilynol sydd ym marn y swyddog priodol oedd yn eitem eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rheswm am y penderfyniad am yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol). | |
| **No. 16** | **<u>RECRIWTIO</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na budd y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 15, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn fyr am yr adroddiad a gyflwynwyd i geisio cymeradwyaeth am yr ailddylunio arfaethedig a recriwtio i swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg ac i gadarnhau am y trefniadau llenwi bwlch mewn swydd uwch a roddwyd ar waith fel mater o frys oherwydd ymddeoliad disgwyliedig y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg cyfredol.<br><br>Daeth y Rheolwr Gyfarwyddwr i ben drwy hysbysu Aelodau mai'r argymhelliad a ffafrir oedd Opsiwn 1, fel y'i manylir o fewn yr adroddiad.<br><br>Dechreuodd yr Aelod Gweithredol Addysg drwy gofnodi ei gwerthfawrogiad i Lynette Jones, y Cyfarwyddwr Corfforaethol | |

Addysg sy'n ymddeol, am ei hymroddiad a'i hymrwymiad i'r swydd dros y blynyddoedd a dywedodd fod addysg mewn lle gwahanol iawn fel canlyniad i'w hymdrechion. Mynegodd yr Aelod Gweithredol ei dymuniadau gorau i Lynette ar ei hymddeoliad.

Oherwydd yr amgylchiadau presennol, ychwanegodd yr Aelod Gweithredol na fedrir rhoi amserlen ar gyfer y broses recriwtio barhaol ond y caiff hyn ei wneud cyn gynted ag mae'n rhesymol ac ymarferol i wneud hynny. Roedd yn hyderus fod y Cyfarwyddwr Corfforaethol interim yn fwy na galluog i fynd ag addysg ymlaen yn ystod y cyfnod cythryblus hwn.

Daeth yr Aelod Gweithredol Addysg i ben drwy gyfeirio at yr ymateb gwych a gafwyd gan y Tîm Addysg yng ngoleuni'r sefyllfa bresennol a mynegodd ei gwerthfawrogiad i swyddogion am y gwaith a wnaed yn y cyfnod anodd hwn.

Ar hynny gofynnwyd am farn Aelodau am yr adroddiad.

**Aelod Rhif 1**

Dechreuodd Aelod drwy ddweud iddi gael ei synnu at yr opsiwn a ffafrir a argymhellir. Esboniodd y cafodd swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei hysbysebu ar y gyfradd is o gyflog yn y cyfnod yr oedd addysg mewn mesurau arbennig ac er y daeth nifer fawr o geisiadau i law, ni wnaed penodiad llwyddiannus. Fel canlyniad, roedd y Cyngor wedi cytuno yn unfrydol i ailhysbysebu'r swydd am yr ail dro gydag atodiad marchnad i ddenu ymgeisydd o'r calibr cywir ac ar yr achlysur hwn cafodd penodiad llwyddiannus ei wneud.

Yr ymgeisydd llwyddiannus ar yr ail achlysur fu Lynette Jones a wnaeth waith rhyfeddol yn troi addysg o gwmpas ac a fu â rhan bwysig mewn helpu addysg allan o fesurau arbennig.

Dywedodd yr Aelod fod gorfod dilyn y broses recriwtio ddwywaith wedi costio swm sylweddol o arian i'r Cyngor a phe byddid yn dilyn y llwybr gweithredu hwn drwy ddileu'r atodiad marchnad cyfredol, byddai eto yn wastraff o arian ac adnoddau.

Yn ychwanegol, mynegodd ei phryder fod Addysg yn bortffolio mawr ac os cynhwysir dyletswyddau ychwanegol o fewn y swydd, h.y. ochr cleientiaid Hamdden a Diwylliant, gallai hyn fod yn broblemus ar adegau megis yr hinsawdd presennol lle roedd

angen ffocws ar addysg yn unig. Daeth yr Aelod i ben drwy ddweud nad oedd yn cytuno gyda'r cynnig a argymhellir.

**Aelod Rhif 2**

Dywedodd Aelod arall y byddai yntau yn cymeradwyo Opsiwn 2 am yr un rhesymau a amlinellwyd gan ei gydweithiwr uchod a dywedodd, er fod addysg wedi gwneud cynnydd da, nad oedd allan o beryg eto. Roedd yn rhaid i Aelodau gofio fod pethau wedi symud ymlaen ers y penodiad diwethaf a bod cyflogau cyfredol wedi cynyddu, er enghraifft mae cyflog pennaeth ysgol ym Mlaenau Gwent dros £100,000 a'r cyflog cyfartalog ar gyfer pennaeth ysgol gynradd yn £125,000. Felly ni fyddai'r cyflog a gynigid yn denu'r calibr cywir o ymgeisydd.

Yn y cyfamser, er bod y Pennaeth Trawsnewid Addysg yn gwneud gwaith rhagorol, dylai'r brif swydd gael ei llenwi cyn gynted ag sy'n bosibl oherwydd pan fydd 'normalrwydd' yn dychwelyd, bydd plant wedi bod allan o'r ysgol am gyfnod sylweddol a byddai rhai wedi colli'r cyfle i wella eu graddau a byddent yn gorfod dewis graddau disgwyliedig. Daeth i ben drwy gynnig cymeradwyo Opsiwn 2. Cafodd y cynnig ei eilio.

**Aelod Rhif 3**

Dywedodd Aelod y cafodd addysg ei roi mewn mesurau arbennig yn ystod 2012 ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd y Cyngor wedi penodi nifer o Gyfarwyddwyr Addysg yn cynnwys rhannu Cyfarwyddwr Corfforaethol gydag awdurdod lleol arall. Fodd bynnag, ni ddaeth eglurder nes y cafodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei phenodi a bu gan Lynette ran bwysig mewn helpu addysg allan o fesurau arbennig. Aeth ymlaen drwy ddweud na fyddai'n dymuno i'r Cyngor fynd drwy'r profiad annymunol hwn eto ac felly rhybuddiodd yn erbyn cymeradwyo Opsiwn 1 oherwydd fod angen i'r Cyngor sicrhau'r ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd.

Daeth yr Aelod i ben drwy gofnodi ei werthfawrogiad i Lynette Jones, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg sy'n ymddeol, am y gwaith a wnaeth yn ystod ei chyfnod yn ei swydd.

**Aelod Rhif 4**

Dywedodd Aelod ei fod wedi gweld y trafferthion a'r anawsterau a ddaeth mesurau arbennig i'r Cyngor a dywedodd iddo effeithio ar y

Cyngor cyfan, nid dim ond addysg ac nid oedd y Cyngor wedi canfod sefydlogrwydd nes y penodwyd Lynette Jones. Roedd ganddo bryderon na fyddai'r awdurdod yn denu'r ymgeisydd cywir dan Opsiwn 1 a gofynnodd os oedd yr Aelod Gweithredol – Addysg yn hyderus os cymeradwyir yr opsiwn, y byddai'r Cyngor yn denu'r calibr cywir o ymgeisydd ar gyfer y swydd.

Dywedodd yr Aelod Gweithredol – Addysg, oherwydd y gwaith gwych a wnaed gan Lynette, bod addysg a'r Cyngor mewn sefyllfa wahanol iawn o lle bu ac roedd yn hyderus y byddai ymgeiswyr ansawdd da yn cael ei denu i wneud cais am y swydd.

**Arweinydd y Grŵp Llafur**

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei bod yn bwysig nodi fod sylwadau Aelodau'r Grŵp Llafur wedi eu gwneud o brofiad a'u bod yn rhoi i ystyriaeth i sylwadau'r Bwrdd Adferiad a Llywodraeth Cymru i ddenu'r ymgeisyddion cywir i Flaenau Gwent gan y bu Addysg yn un o brif flaenoriaethau'r Grŵp yn ystod y cyfnod hwnnw.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur, er ei fod yn cynnig cymeradwyo Opsiwn 2, ei fod yn cadarnhau fod y Grŵp Llafur yn cefnogi'r trefniadau 'llanw bwlch mewn swydd uwch' dros dro a roddwyd ar waith.

**Arweinydd y Cyngor**

Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud ei fod yn deall rhai o sylwadau cydweithwyr o'r Grŵp Llafur ond cynghorodd y byddai'n annoeth symud ymlaen gyda'r broses recriwtio ar hyn o bryd. Roedd yn cytuno gyda sylwadau'r Aelod Gweithredol Addysg h.y. fod Blaenau Gwent ei hun yn awr mewn sefyllfa llawer gwell, yn arbennig mewn addysg, a thalodd deyrnged a mynegi ei werthfawrogiad i Lynette Jones oedd yn un o'r gweithwyr caletaf a mwyaf egnïol iddo gwrdd â nhw erioed ac mai llwyddiannau Lynette oedd y llwyddiannau mewn addysg. Mae Blaenau Gwent mewn lle priodol i ddenu pobl i fyw a gweithio yn yr ardal.

Roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr wedi ystyried yr holl ffactorau ac ni fyddai'n gwneud unrhyw beth i roi'r awdurdod mewn sefyllfa ansicr ac mae angen i Aelodau fod â ffydd a hyder ynddi. Er fod yr Aelod Gweithredol yn newydd yn ei swydd, roedd hithau wedi ystyried yr holl ffactorau ac hollol gytûn iawn â'r Rheolwr Gyfarwyddwr.

Aeth yr Arweinydd ymlaen i ddweud y gellid defnyddio’r atodiad marchnad fel sefyllfa ‘wrth gefn’ pe na fedrid gwneud penodiad. Os hysbysebir y swydd ar unwaith gydag atodiad marchnad, roedd angen i Aelodau ystyried y neges y gallai hyn ei anfon i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol eraill.

Daeth yr Arweinydd i ben drwy ddweud y byddai ar y pwynt priodol yn gryf o blaid Opsiwn 1.

Gan y cynhaliwyd gyfarfod drwy gynhadledd ffôn ac y cyflwynwyd gwelliant, cytunwyd cynnal pleidlais wedi’i chofnodi yng nghyswllt gwelliant Opsiwn 2 yn unig:

**Opsiwn 2:**

- **Bod y Cyngor yn symud ymlaen i recriwtio i swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fel y saif ar hyn o bryd gydag atodiad marchnad a heb unrhyw ychwanegiadau i’r disgrifiad swydd.**

- **Cefnogi trefniadau dros dro ‘llenwi bwlch mewn swydd uwch’.**

**O blaid –** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, K. Hayden, H. McCarthy, J. C. Morgan, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, B. Willis a L. Winnett.

**Yn erbyn –** Cynghorwyr J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, M. Day, P. Edwards, S. Healy, J. Hill, W. Hodgins, M. Holland, J. Mason, C. Meredith, M. Moore, J. P. Morgan, L. Parsons, G. Paulsen, K. Pritchard, K. Rowson, B. Summers, G. Thomas a J. Wilkins.

**Ni chafodd y cynnig ei gario.**

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, derbyn yr adroddiad sy’n cyfeirio at wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw ymgynghoriadau neu negodiadau, neu ymgynghoriadau neu negodiadau arfaethedig mewn cysylltiad gydag unrhyw fater cysylltiadau llafur rhwng yr Awdurdod neu Weinidog o’r Goron a chyflogeion neu ddeiliaid swyddi a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo’r cynigion dilynol:

| | | |
|---|---|---|
| | • Ailddylunio rôl Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, rhychwant cyflog £80,046 - £88,048 y flwyddyn (Dyfarniad Cyflog yn Ddisgwyliedig).<br><br>• Bod yr atodiad marchnad cyfredol yn cael ei dynnu yn weithredol ar unwaith.<br><br>• Penodi'r Pennaeth Trawsnewid Addysg dros dro o 30 Mawrth 2020, yn disgwyl y broses recriwtio ar gyfer apwyntiad parhaol.<br><br>Mynegodd Aelod ei werthfawrogiad i'r Cadeirydd am reoli'r cyfarfod dan amgylchiadau anodd | |